CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

**Cymdeithas Bob Owen**

Tâl aelodaeth
£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.

**SWYDDOGION**

Cadeirydd:
Brynley F. Roberts
Ysgrifennydd:
Richard H. Lewis
40 Maes Ceiro
Bow Street, Dyfed
(Aberystwyth 828102)
Trysorydd a Threfnydd Busnes:
Anne Till
26 Maes Ceiro
Bow Street, Dyfed
(Aberystwyth 820235)
Golygydd:
John Roberts Williams
18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon
(Caernarfon 673593)

Cyhoeddir Y Casglwr
Gyda chymorth ariannol
Cyngor Celfyddydau Cymru.

## YN EISIAU

***Cofiant y diweddar Barch. John Williams, Rhosllannerchrugog;*** *R. Ellis (Cynddelw). Llangollen: Argraffwyd gan W. Williams, 1871.*
***Cofiant y diweddar Barch. W. Roberts, gweinidog y Bedyddwyr yn Fforddlas;*** *J. Spinther James. Cwmafon, Griffiths a'i Feibion.*
***Cofiant y diweddar Barch. Thomas Rees Davies, Glanwydden . . .;*** *H. W. Hughes, Caerfyrddin. Argraffwyd gan W. M. Evans, 1860.*
**GLYN ROBERTS, Berwyn, 5 Rhiw Bank Avenue, Bae Colwyn, Clwyd LL29 7PH. Ffôn: 0492 530947.**

***Eryri: the mountains of longing;*** *Amory Lovis, with photographs by Philip Evans, introduction by Sir Charles Evans, edited with a foreword by David R. Brower. New York: McCall Publishing; London: Allan and Unwin, for Friends of the Earth, 1972. (The Earth's Wild Places).*
**HAF ROBERTS, 11 Stryd Cyfeiliog, Pontcanna, Caerdydd CF1 9JA. Ffôn: 0222 396205.**

***Adgofion am ddeugain mlynedd o'm gweinidogaeth;*** *gan y Parch. Evan Jones. Caerfyrddin. Argraffwyd gan W. Spurrell a'i Fab, 1894.*
**D. G. LLOYD HUGHES, Gwên-y-wawr, New Inn, Pencader, Dyfed SA39 9AZ. Ffôn: 0559 384839.**

***Hen gardiau post cyn 1945.*** *Telir prisiau da.*
**JOHN COWELL, 52 Lôn-y-bryn, Porthaethwy, Gwynedd LL59 5LL. Ffôn: 0248 712300.**

*Mae Powisland Club angen un gyfrol o'r* **Montgomeryshire Collection, cyfrol XL, 40,** *i gwblhau set.*
**Mrs WOODHOUSE, Red House, Guilsfield, Y Trallwm. Ffôn: 0938 553 977.**



**L. L. GLYN CHAMBERS yn cofio Griffith Davies**

# Cywirodd fathemateg Telford

GANWYD Griffith Davies ar 28 Rhagfyr 1788 yn Nhŷ Croes, Hafod Boeth, ger Groeslon, Sir Gaernarfon. Bu'n ddigon ffodus i gael ychydig o addysg yn ei blentyndod, ac yn 14 oed aeth i weithio mewn chwareli cyfagos. Ar ôl iddo gynilo digon o arian, aeth i ysgol Evan Richardson yng Nghaernarfon ac yno cafodd flas ar rifyddeg.

Dychwelodd i'r chwarel, yn gweithio i raddau helaeth fel clerc i'r stiward a chynlluniodd fethod o bennu cyflogau pan oedd aelod o bartneriaeth wedi bod yn absennol am gyfnod.

Yn y diwedd, penderfynodd fynd i Lundain i ddysgu Saesneg er mwyn gwella ei hun, a hwyliodd yno ym Medi 1819.

Wedi cyrraedd Llundain bu mewn ysgolion am ychydig o fisoedd ac yn Ionawr 1820, cafodd swydd fel athro rhifyddeg a mathemateg yn 'Raenall's Academy' yn Sadlers Wells am £20 y flwyddyn a'i fwyd. Mewn dwy flynedd yr oedd wedi agor ysgol ei hun gan godi chwe cheiniog neu swllt yr wythnos ar ei ddisgyblion.

* * * *

YMUNODD â'r hen 'London Mathematical Society' yn Spitalfields, ac felly, yr oedd yn cael defnyddio'r llyfrgell a thrafod mathemateg. Oherwydd cyflwyr y strydoedd, collodd ddisgyblion a bu raid iddo ei gynnal ei hun trwy gywiro proflenni'r *Eurgrawn* a gwerthu papur dros felin bapur Bodrual ger Caernarfon. Ond yn 1814 cyhoeddodd lyfr, *Key to Bonnycastles Trigonometry,* sef set o atebion i broblemau yn llyfr Bonnycastle.

Er nad oedd y llyfr yn dod â llawer o arian iddo, daeth ei ysgol yn enwog o'r herwydd a chafodd lawer o ddisgyblion, gan gynnwys myfyrwyr o Gaergrawnt a'r anturiaethwr, Syr John Franklin.

Ymhlith y disgyblion yr oedd amryw a oedd yn awyddus i ddysgu mathemateg yswiriant bywyd. Yn y dechrau nid oedd Griffith Davies yn gwybod dim am y pwnc, a gwnaeth i'r cyntaf o'r disgyblion yma ddarllen am algebra, tra oedd ef ei hun yn dysgu'r mathemateg angenrheidiol.

Yn 1820 enillodd Griffith Davies fedal arian y 'Royal Society of Arts' am gynllunio cloc haul.

Bu'n llwyddiannus iawn fel athro, a phenderfynodd gynnig am swydd arifydd *(actuary)* ei hun. Gofynnodd i William Morgan, Cymro o Benybont-ar-Ogwr ac arifydd yr *Equitable,* a nai i Richard Price, yr athronydd, ei arholi. Yr oedd yr arholiad llafar yn foddhaol, ac oherwydd hynny, cyflwynodd William Morgan ef i amryw yn y byd yswiriant. Yn y diwedd, penodwyd Griffith Davies yn arifydd y *Guardian Assurance* yn 1821.

* * * *

CYD-YMGEISYDD ag ef am y swydd oedd yr Iddew Benjamin Gompertz; oherwydd i hwnnw fethu â chael y swydd gyda'r *Guardian,* sefydlodd Nathan Rothschild swyddfa'r *Alliance* ar ei gyfer. Bu Griffith Davies yn weithgar yn ei broffesiwn.

Cyhoeddodd dablau a datblygodd fethodau newydd o osod allan gyfrifiadau ei faes.

Bu'n gyfrifol am brisio amryw o gronfeydd India, a chafodd £3000 o dâl am brisio dim ond un ohonynt.

Yn 1829 gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer eisteddfod ym Maentwrog. Enillodd Griffith Davies fedal arian am draethawd ar 'Gymdeithasau Cyfeillgar', ond ni chynhaliwyd yr eisteddfod, ac ni chafodd y fedal er, mae'n ymddangos, iddo gyhoeddi'r traethawd a hynny mewn ffurf digon anfoddhaol, ond nid oes copi wedi goroesi.

* * * *

YN 1831 etholwyd ef i'r Gymdeithas Frenhinol. Dau o'r rhai a'i cynigiodd oedd William Morgan a Benjamin Gompertz, ac yn 1833 etholwyd ef yn aelod anrhydeddus o'r *Société Française de Statistique Universelle.*

Bu'n gyfrifol am hyfforddi amryw o ddynion ifanc fel arifyddion, llawer ohonynt yn Gymry, ac yr oedd yn ymgynghorwr mewn llawer o achosion. Er enghraifft, pan beidiodd goleudai â bod mewn dwylo preifat bu ef yn gyfrifol am brisio goleudai Môn.

Tua 1848 bu symudiad gan yr arifyddion i sefydlu cymdeithas broffesiynnol, sef yr *Institute of Actuaries.* Cafodd gynnig bod yn llywydd cyntaf, ond, am amryw o resymau, gwrthododd.

Ar ôl i'r sefydliad ddod i fodolaeth cyflwynwyd tysteb iddo, a disgrifiwyd ef fel, *'the father of the present race of actuaries',* ac ef oedd y cyntaf i ymaelodi a thalu ei danysgrifiad.

Nid oedd ei iechyd erbyn hyn yn dda ac yr oedd yn bwriadu ymddeol yn 1855, ar ôl iddo orffen y prisio pum-mlynyddol arferol o'r *Guardian* ond bu farw ar 21 Mawrth y flwyddyn honno.

* * * *

BU Griffith Davies yn briod ddwywaith. O'r briodas gyntaf, bu pedair o ferched. Bu farw tair yn ifanc a phriododd y bedwaredd, Sarah, â Samuel Dew, cyfreithiwr o Langefni. Er bod ei wraig gyntaf yn Saesnes (yr oedd yn chwaer i un o'i ddisgyblion cyntaf yn Raenall's), yr oedd Griffith Davies wedi dysgu Sarah i ddarllen Cymraeg.

Wyres i Sarah oedd Blanche Dew Roberts y nofelydd. Bu farw ei wraig gyntaf yn 1836 ac ailbriododd yn 1841 a bu un mab o'r briodas honno.

Yr oedd crefydd yn bwysig ym mywyd Griffith Davies. Cysylltir ei enw â Jewin, lle bu'n addoli y rhan fwyaf o'r amser y bu yn Llundain. Gyda Hugh Owen sefydlodd glwb cynilo yno. Bu'n flaenor ac yr oedd o blaid diarddel aelod a werthodd lefrith ar y Sul!

Hefyd, yn 1849, yr oedd Evan Richard (brawd Henry Richard) wedi cadw rhenti oedd yn perthyn i'r eglwys a bu'n rhaid i Griffith Davies, fel pen blaenor, ddwyn y mater o flaen yr eglwys. Dygodd Richard achos enllib yn erbyn Griffith Davies, ond ar y diwrnod yr oedd yr achos i fod o flaen y llys, yn Westminter Hall, cyhuddwyd Richard yn llys Guildhall o ddwyn arian.

Mae'n bosibl bod elfen o ddial ym mwriad Richard, gan fod Griffith Davies wedi gwrthwynebu carwriaeth rhwng ei ferch Sarah a Richard.

Bu gan Griffith Davies hefyd ddiddordeb mawr mewn addysg. Yr oedd yn aelod o'r Cymreigyddion a thalodd am gyfarpar ar gyfer darlithiau ar bynciau megis hydrostateg, ond ymddiswyddodd pan benderfynodd y gymdeithas drafod materion gwleidyddol.

Bu ar fwrdd yr Ysgol Gymreig yn Gray's Inn Road a bu'n weithgar hefyd mewn cymdeithasau yn Islington lle'r oedd yn byw. Heblaw ei ddiddordebau yn Llundain bu'n gysylltiedig â phwyllgorau colegau Trefeca a'r Bala.

* * * *

Y MAE dau fater pwysig y bu Griffith Davies yn gysylltiedig â hwy, bron wedi mynd yn angof. Mae'n ymddangos nad oedd cyfrifiadau Telford ar gyfer Pont y Borth yn gywir, a gorfu i Griffith Davies, a oedd wedi datblygu peth o theori cadwynau crog, ailweithio rhai o'r cyfrifiadau.

Fel yr ysgrifennodd Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon:

**Wedi i gynllunio Telford**
**Dd'rysu uwch y Fenai ddofn**
**Griffith Davies a ddangosodd**
**Ei ddiffygion yn ddi-ofn.**

Yr ail fater oedd llwyddiant Griffith Davies i rwystro cau'r tir comin yn Llandwrog yn 1826. Trwy ei ymdrechion, gyda rhai o ddylanwad a adwaenai yn Llundain, tynnwyd y mesur

/ dud. 3